# Hysbysiad Preifatrwydd: Cyflogeion

## Cyflogeion: Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio

### Cyflwyniad

1. Fel eich cyflogwr, mae angen i Grŵp ateb (gan gynnwys Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru), y cyfeirir ato fel "y Grŵp", gadw a phrosesu gwybodaeth amdanoch at ddibenion cyflogaeth arferol. Dim ond at ein dibenion rheoli a gweinyddu ni y defnyddir y wybodaeth y byddwn yn ei chadw ac yn ei phrosesu. Byddwn yn ei chadw ac yn ei defnyddio i'n galluogi i redeg y busnes a rheoli ein perthynas â chi yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn briodol yn ystod y broses recriwtio, tra byddwch yn gweithio i ni, pan fydd eich cyflogaeth yn dod i ben ac ar ôl i chi ein gadael.

2. Mae'r hysbysiad hwn hefyd yn berthnasol i chi os ydych yn gweithio gyda ni fel Aelod Bwrdd neu wirfoddolwr neu os ydych ar brofiad gwaith/yn treulio diwrnodau astudio gyda ni.

3. Rydym wedi ymrwymo i gadw eich gwybodaeth bersonol yn breifat ac yn ddiogel. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y byddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn ystod eich perthynas waith â ni ac ar ôl i'r berthynas honno ddod i ben, yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

4. Ni fyddwn yn prosesu eich data oni bai bod gennym reswm cyfreithlon i'w brosesu. Mae hynny'n cynnwys defnyddio gwybodaeth i'n galluogi i gydymffurfio â'r contract cyflogaeth, cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, mynd ar drywydd buddiannau dilys y Grŵp a gwarchod ein sefyllfa gyfreithiol pe bai yna achos cyfreithiol. Os na fyddwch yn darparu'r data hwn mae'n bosibl, mewn rhai amgylchiadau, na fydd modd i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a byddwn yn sôn wrthych am oblygiadau'r penderfyniad hwnnw.

5. Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Cofiwch roi gwybod i ni os bydd eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas waith â ni.

### Egwyddorion diogelu data

6. Byddwn yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data, sy'n nodi bod yn rhaid i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch:

(a) Cael ei defnyddio mewn modd cyfreithlon, teg a thryloyw.
(b) Cael ei chasglu at ddibenion dilys yn unig, sydd wedi'u hesbonio yn glir i chi, heb iddi gael ei defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
(c) Bod yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi sôn wrthych amdanynt, a bod wedi'i chyfyngu i'r dibenion hynny yn unig.
(ch) Bod yn gywir ac yn gyfredol.
(d) Cael ei chadw cyhyd ag sydd raid yn unig at y dibenion yr ydym wedi sôn wrthych amdanynt.
(dd) Cael ei chadw'n ddiogel.

## Y mathau o wybodaeth y gallem fod yn ei chadw amdanoch

7. Mae'r math o wybodaeth y byddwn yn ei chadw yn cynnwys:

a. eich ffurflen gais a'ch geirdaon
b. dogfennau sy'n ymwneud â chi, e.e. nodiadau cyfweliad, tystysgrifau hyfforddiant a chymwysterau, tystysgrifau meddygol, ffurflenni damweiniau, dogfennau adnabod, e.e. pasbort
c. eich contract cyflogaeth ac unrhyw newidiadau iddo
ch. gohebiaeth â chi neu amdanoch, e.e. llythyrau atoch am godiad cyflog neu, o gael cais gennych, llythyr at eich cwmni morgeisiau'n cadarnhau eich cyflog; adroddiadau gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol am eich lles
d. gwybodaeth y mae ei hangen at ddibenion y gyflogres, buddion a threuliau
dd. eich manylion cyswllt a manylion cyswllt y sawl y dylid cysylltu â nhw mewn argyfwng
e. cofnodion ynghylch gwyliau, absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldebau eraill
f. gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn monitro cyfle cyfartal
ff. cofnodion ynghylch hanes eich gyrfa, megis cofnodion ynghylch hyfforddiant a gyflawnwyd, sesiynau arfarnu a mesurau perfformiad eraill a, lle bo'n briodol, cofnodion ynghylch camau disgyblu a chwynion cyflogaeth
g. gwybodaeth am eich defnydd o gyfrifiadur/ffôn/llechen y cwmni neu o unrhyw ddyfais arall a ddarparwyd i chi gan y cwmni
ng. cofnodion ynghylch unrhyw offer neu gerbyd cwmni a ddarparwyd i chi
h. lluniau a dynnwyd ohonoch yn ystod oriau gwaith/digwyddiadau'n gysylltiedig â'r gwaith
i. lluniau ohonoch y gallent fod wedi'u recordio ar ein systemau teledu cylch cyfyng
j. recordiadau o alwadau ffôn allanol (rhai a wnaed ac a dderbyniwyd)
l. eich lleoliad a'ch hanes o ran gyrru, a gofnodir ar y system Verizon Connect Reveal a fydd wedi'i gosod ar faniau'r cwmni
ll. eich lleoliad a recordiadau llais a gaiff eu recordio ar ein dyfeisiau PeopleSafe ar gyfer y sawl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain
m. eich gwybodaeth recriwtio, a gofnodwyd drwy Harbour gan 3D Marcomms
n. gwybodaeth feddygol a gwybodaeth am iechyd er mwyn ein galluogi i hybu eich lles a chyflawni unrhyw addasiadau neu asesiadau risg fel sy'n ofynnol gan

ddeddfwriaeth.

8. Rydym yn monitro'r defnydd a wneir o gyfrifiaduron, llechi a ffonau swyddfa/ffonau symudol fel y disgrifir yn ein Gweithdrefn ar gyfer Defnyddio Cyfrifiaduron, sydd ar gael ar Breathe neu drwy gysylltu â'r Tîm Pobl. Rydym hefyd yn cadw cofnodion ynghylch pryd yr ydych yn mewngofnodi i weithio, drwy ein system Who's On Location, ynghyd â'ch hanes o ran gyrru/lleoliad os ydych wedi cael cerbyd cwmni y mae'r system Verizon Connect Reveal wedi'i gosod arno, a/neu ynghylch eich lleoliad os ydych wedi cael dyfais PeopleSafe ar gyfer y sawl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

9. Mae'n anochel y bydd cyfeiriadau atoch mewn llawer o ddogfennau a chofnodion y cwmni, a gaiff eu cynhyrchu gennych chi a'ch cydweithwyr wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau a busnes y cwmni. Dylech gyfeirio at y Polisi Diogelu Data, sydd ar gael ar y fewnrwyd neu ar ffurf copi caled gan y Swyddog Diogelu Data, i gael gwybodaeth am y gweithdrefnau a'r rheolau y mae'n rhaid i chi a'ch cydweithwyr eu dilyn wrth brosesu data personol eich gilydd a data personol unrhyw unigolion eraill.

10. Chi fydd wedi darparu llawer o'r wybodaeth y byddwn yn ei chadw, ond mae'n bosibl y daw peth ohoni o ffynonellau mewnol eraill megis eich rheolwr neu, mewn rhai achosion, o ffynonellau allanol megis canolwyr neu'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.

## Sut y byddwn yn defnyddio gwybodaeth amdanoch

11. Ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Dyma'r amgylchiadau mwyaf cyffredin lle byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

   a. Os oes angen i ni gyflawni'r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo â chi.
   b. Os oes angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.
   c. Os yw'n angenrheidiol er mwyn mynd ar drywydd ein buddiannau dilys ni (neu fuddiannau dilys trydydd parti) ac os nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi'n bwysicach na'r buddiannau hynny.
   ch. Mewn sefyllfaoedd llai cyffredin, os oes angen i ni warchod eich buddiannau chi neu fuddiannau rhywun arall, neu os oes angen prosesu'r wybodaeth er budd y cyhoedd.

12. Isod ceir rhestr o'r sefyllfaoedd lle byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol am y rhesymau uchod, a natur ein buddiannau dilys wrth wneud hynny.

   a. Gwneud penderfyniad ynghylch eich recriwtio neu'ch penodi.
   b. Penderfynu ar y telerau y byddwch yn gweithio i ni ar eu sail.
   c. Cadarnhau bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU.
   ch. Eich talu a thynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol o'ch cyflog os ydych yn gyflogai neu'n cael eich ystyried yn gyflogai at ddibenion treth.
   d. Darparu buddion cyflogaeth eraill i chi, e.e. yswiriant iechyd neu yswiriant bywyd.
   dd. Eich cofrestru mewn trefniant pensiwn yn unol â'n dyletswyddau statudol o safbwynt cofrestru awtomatig, a chysylltu ag ymddiriedolwyr neu reolwyr unrhyw

drefniant pensiwn o’r fath neu ag unrhyw gorff arall sy’n darparu buddion i’n cyflogeion.

- e. Gweinyddu’r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo â chi.
- f. Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol Llywodraeth Cymru.
- ff. Monitro cyfle cyfartal.
- g. Sicrhau eich iechyd, diogelwch a lles tra byddwch yn y gwaith.
- ng. Darparu gwybodaeth weithredol a gwybodaeth reoli.
- h. Cadarnhau neu gyflwyno hawliadau cyfreithiol neu’n hamddiffyn rhag hawliadau o’r fath.
- i. Gwarchod eich buddiannau allweddol i fywyd, h.y. darparu data personol neu ddata personol sensitif amdanoch i’r gwasanaethau brys os byddwch yn cael damwain yn y gwaith.
- j. Diogelu tenantiaid agored i niwed.
- l. Atal a chanfod twyll neu drosedd.
- ll. Hyrwyddo ein gwasanaethau a’n gweithgareddau.
- m. Cynllunio a rheoli busnes, gan gynnwys gwaith cyfrifyddu ac archwilio.
- n. Cynnal adolygiadau perfformiad a rheoli perfformiad.
- o. Gwneud penderfyniadau am adolygiadau cyflog ac iawndal.
- p. Asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg benodol, gan gynnwys dyrchafiad.
- ph. Casglu tystiolaeth ar gyfer gwrandawiadau disgyblu neu wrandawiadau cwynion cyflogaeth.
- r. Gwneud penderfyniadau ynghylch parhau i’ch cyflogi.
- rh. Gwneud trefniadau i derfynu ein perthynas waith.
- s. Gofynion o ran addysg, hyfforddiant a datblygiad.
- t. Cadarnhau eich ffitrwydd i weithio.
- th. Rheoli absenoldeb oherwydd salwch.
- u. Sicrhau cydymffurfiaeth â’n polisïau TG.
- w. Sicrhau diogelwch gwybodaeth a diogelwch ein rhwydwaith, gan gynnwys atal mynediad heb awdurdod i’n systemau cyfrifiadurol a TG.

13. Ym mhob un o’r sefyllfaoedd a restrir ym mharagraff 12 uchod, rydym wedi penderfynu bod un neu fwy o’r rhesymau dros brosesu, a restrir ym mharagraff 11, yn berthnasol. Mewn rhai achosion, bydd rhai o’r rhesymau dros brosesu yn gorgyffwrdd â’i gilydd, a gallai fod sawl rheswm sy’n cyfiawnhau ein defnydd o’ch gwybodaeth bersonol.

14. Dim ond at y dibenion y cafodd eich gwybodaeth bersonol ei chasglu y byddwn yn ei defnyddio, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol bod angen i ni ei defnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw’n gydnaws â’r diben gwreiddiol. Os oes angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben nad yw’n gysylltiedig â’r diben gwreiddiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn egluro’r sail gyfreithiol sy’n caniatáu i ni wneud hynny.

15. Dylech nodi y gallem brosesu eich gwybodaeth bersonol heb yn wybod i chi neu heb eich caniatâd, yn unol â’r rheolau uchod, os yw’r gyfraith yn mynnu neu’n caniatáu hynny.

## Defnyddio gwybodaeth sensitif

16. Mae angen trefniadau diogelu llymach ar gyfer categorïau penodol o wybodaeth arbennig

o sensitif. Mae angen i ni gyfiawnhau ymhellach ein rhesymau dros gasglu, storio a defnyddio'r math hwnnw o wybodaeth bersonol. Mae gennym ddogfen bolisi a mesurau diogelu priodol ar waith, y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni eu dilyn wrth brosesu data o'r fath. Gallem brosesu'r categorïau arbennig hyn o wybodaeth sensitif yn yr amgylchiadau canlynol:

a. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol.

b. Os oes angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer ein hawliau yng nghyswllt cyflogaeth.

c. Os oes angen gwneud hynny er budd y cyhoedd, e.e. er mwyn monitro cyfle cyfartal.

ch. Mewn sefyllfaoedd llai cyffredin, gallwn brosesu'r math hwn o wybodaeth os oes ei hangen mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu os oes ei hangen i warchod eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu os ydych eisoes wedi rhannu'r wybodaeth yn gyhoeddus.

17. Gan gydymffurfio â'n rhwymedigaethau i chi fel cyflogwr, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sensitif ganlynol yn y ffyrdd canlynol:

a. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth am gyfnodau o absenoldeb, a allai gynnwys absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb am resymau teuluol, er mwyn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a chyfreithiau eraill.

b. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich iechyd corfforol a'ch iechyd meddwl, a allai gynnwys ymhlith pethau eraill adroddiadau a nodiadau eich meddyg teulu a/neu'r gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, nodiadau cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a manylion eich statws o ran anabledd, er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o ran iechyd a diogelwch ac o ran iechyd galwedigaethol — i ystyried sut y mae eich iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith ac a fyddai'n briodol gwneud unrhyw addasiadau i'ch gwaith; i fonitro a rheoli absenoldeb oherwydd salwch; i weinyddu a rheoli tâl salwch statudol a thâl salwch y cwmni, tâl mamolaeth, manylion yswiriant iechyd preifat os yw hynny'n berthnasol ac yswiriant bywyd sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y gweithle os ydych yn aelod o'r cynllun hwnnw. Mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth am eich cofnodion imiwneiddio.

c. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich hil neu'ch tarddiad ethnig neu genedlaethol, eich credoau crefyddol, athronyddol neu foesol, neu'ch cyfeiriadedd rhywiol, i sicrhau bod camau ystyrlon yn cael eu cymryd i fonitro cyfle cyfartal ac adrodd yn ei gylch.

18. Nid oes angen eich caniatâd arnom os byddwn yn defnyddio categorïau arbennig o'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisi ysgrifenedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu arfer hawliau penodol ym maes cyfraith cyflogaeth. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd ysgrifenedig i'n galluogi i brosesu rhai mathau o ddata arbennig o sensitif. Os byddwn yn gwneud

hynny, byddwn yn darparu manylion y wybodaeth yr hoffem ei chael a'r rheswm pam y mae arnom ei hangen, er mwyn i chi allu ystyried yn ofalus a ydych am roi eich caniatâd. Dylech fod yn ymwybodol nad yw cytuno ag unrhyw gais gennym am ganiatâd yn un o amodau eich contract â ni a bod gennych hawl i wrthod rhoi caniatâd.

## Gwybodaeth am euogfarnau troseddol

19. Mewn rhai achosion, rydym yn rhagweld y gallai fod gennym wybodaeth am euogfarnau troseddol. Ni fyddwn yn casglu gwybodaeth o'r fath oni bai bod hynny'n briodol o ystyried natur y swydd, a bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Os yw'n briodol, caiff y wybodaeth hon ei chasglu'n rhan o'r broses recriwtio, neu mae'n bosibl y byddwch chi yn rhoi'r wybodaeth honno i ni'n uniongyrchol tra byddwch yn gweithio i ni.

20. Ni fyddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd hynny, fel rheol, mewn achosion lle mae'n rhaid prosesu data o'r fath er mwyn i ni allu cyflawni ein rhwymedigaethau, ar yr amod ein bod yn gwneud hynny yn unol â'n Polisi Diogelu Data. Mewn sefyllfaoedd llai cyffredin, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth am euogfarnau troseddol os oes yn rhaid gwneud hynny yng nghyswllt hawliadau cyfreithiol, lle mae'n rhaid gwarchod eich buddiannau chi (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu os ydych eisoes wedi rhannu'r wybodaeth yn gyhoeddus.

## Penderfyniadau awtomataidd

21. Caiff penderfyniadau awtomataidd eu gwneud pan fydd system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth gan bobl. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y caiff hynny ei ganiatáu. Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud amdanoch chi; fodd bynnag, os bydd hynny'n newid, byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig ac yn rhoi gwybod i chi beth yw eich hawliau yn y maes hwnnw.

## Rhannu data

22. Ar wahân i'r sefyllfaoedd a nodir isod, ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i drydydd parti oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny'n ôl y gyfraith, os oes angen i ni weinyddu'r berthynas waith â chi, neu os oes gennym fudd dilys arall mewn gwneud hynny.

23. Yn ystod eich cyflogaeth gyda ni mae'n bosibl y byddwn, er mwyn gallu cydymffurfio â'n buddiannau dilys a restrir ym mhwynt 12, yn datgelu gwybodaeth amdanoch i'r darparwyr

gwasanaeth canlynol:

a. Y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol — sy'n rhan o'r Ymddiriedolaeth Bensiynau
b. Cwnselwyr a ddefnyddir gan y Grŵp; fodd bynnag, byddwn yn gofyn am ganiatâd penodol gennych i ddatgelu'r wybodaeth
c. Insight Workplace Health sy'n darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol a gwyliadwriaeth ar ein rhan
ch. Llywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio ag Atodlen 1 (Rheoliadau Tai) os byddwch yn gwneud cais am dŷ gennym ac os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo eich cais
d. CBS Screening sy'n cynnal Gwiriadau Datgelu a Gwahardd ar ein rhan
dd. 3D MarComms (Harbour) sy'n cynnal ein porth recriwtio ar-lein
e. Simply Health sy'n gweithredu ein cynllun iechyd a'n cynllun deintyddol
f. Verizon Connect Reveal sy'n cynnal ein system tracio cerbydau
ff. PeopleSafe sy'n gweithredu ein dyfeisiau i'r sawl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain
g. Breathe sy'n gweinyddu ein cronfa ddata ynghylch timau
ng. Who's On Location sy'n gweinyddu ein system cofnodi lleoliad
h. Wagestream sy'n daparu ap lles ariannol.

24. Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth amdanoch i gwmnïau eraill y Grŵp at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth neu sy'n gysylltiedig â rheoli busnes y cwmni.

25. Mae'n ofynnol i endidau eraill yn y Grŵp ac i bob darparwr gwasanaeth trydydd parti gymryd camau priodol i gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'n polisïau a chyfraith diogelu data. Nid ydym yn caniatáu i'n darparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain. Dim ond at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau yr ydym yn caniatáu iddynt brosesu eich data personol.

26. Mae'n bosibl y byddwn, yn y dyfodol, yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon eraill ar wahân i'r rhai a restrir uchod, e.e. os byddwn yn newid darparwr; os byddwn yn defnyddio darparwr newydd i ddarparu gwasanaeth newydd i ni; neu os byddwn yn ystyried gwerthu neu aildrefnu'r busnes efallai. Os byddwn yn ystyried gwerthu neu aildrefnu'r busnes byddwn, i'r graddau y bo'n bosibl, yn rhannu gwybodaeth ddienw â'r partïon eraill cyn i unrhyw broses gael ei chwblhau. Pan fydd y broses wedi'i chwblhau, byddwn yn rhannu eich data personol â'r partïon eraill os oes angen gwneud hynny ac i'r graddau y mae angen gwneud hynny dan delerau'r broses werthu neu aildrefnu.

27. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â rheoleiddiwr neu er mwyn cydymffurfio fel arall â'r gyfraith. Gallai hynny gynnwys cyflwyno gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'i rhannu â chyfranddalwyr.

28. Mewn amgylchiadau cyfyngedig ac angenrheidiol, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei throsglwyddo y tu allan i'r DU neu i sefydliad rhyngwladol er mwyn cydymffurfio â'n

gofynion cyfreithiol neu'n gofynion dan gontract.

## Diogelwch data

29. Mae gennym fesurau diogelu ar waith i gadw eich data'n ddiogel, sy'n cynnwys systemau diogelwch ar ddrysau er mwyn caniatáu mynediad i bobl ag awdurdod, a systemau wal dân fewnol er mwyn caniatáu mynediad o'r tu allan i'n systemau tai. Mae copi o'r mesurau diogelu ar gael yma.

30. Caiff eich data personol ei storio am uchafswm o 6 blynedd wedi i'ch cyflogaeth ddod i ben; fodd bynnag, rydym yn gweithredu cyfnodau cadw gwahanol, yn dibynnu ar y math o ddata sydd gennym. Mae manylion llawn i'w cael yn y Polisi Diogelu Data sydd ar ein gwefan www.atebgroup.co.uk neu drwy fynd i ddogfennau'r cwmni ar Breathe.

31. Os yw'n fwriad gennym, yn y dyfodol, brosesu eich data personol at ddiben ar wahân i'r diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer, byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y diben hwnnw ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

## Eich hawliau

32. Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data, mae gennych nifer o hawliau'n ymwneud â'ch data personol. Mae gennych yr hawl i:
    a. **Gofyn i ni am fynediad** i'ch data personol (fe'i gelwir yn aml yn "gais am fynediad i ddata gan y testun"). Mae'n eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn prosesu'r wybodaeth honno'n gyfreithlon.
    b. **Gofyn i ni gywiro** eich gwybodaeth bersonol. Mae'n eich galluogi i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch.
    c. **Gofyn i ni ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae'n eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu waredu gwybodaeth bersonol os nad oes rheswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu waredu eich gwybodaeth bersonol os ydych wedi arfer eich hawl i wrthwynebu ei bod yn cael ei phrosesu (gweler isod).
    ch. **Gwrthwynebu ein bod yn prosesu** eich gwybodaeth bersonol, os ydym yn defnyddio ein buddiannau dilys ni (neu fuddiannau dilys trydydd parti) fel yr unig reswm dros wneud hynny ac os oes rhywbeth am eich sefyllfa benodol chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu unrhyw brosesu ar sail y rheswm hwnnw. Mae gennych hawl i wrthwynebu hefyd os byddwn yn prosesu eich gwybodaeth

bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.

d. **Gofyn i ni gyfyngu** ar y modd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei phrosesu. Mae'n eich galluogi i ofyn i ni roi'r gorau i brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, e.e. os ydych am i ni gadarnhau bod y wybodaeth yn gywir neu gadarnhau'r rheswm dros ei phrosesu.

dd. **Gofyn i ni drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

33. Os byddwch am arfer un o'r hawliau hyn neu am gael gwybod mwy amdanynt, neu os byddwch am wneud cais am fynediad i ddata gan y testun, dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar ddiwedd y ddogfen hon. Bydd dogfennau'n cael eu rhannu mewn fformat electronig. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol neu arfer unrhyw un o'r hawliau eraill. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn codi ffi resymol os yw'n amlwg bod eich cais am fynediad yn ddi-sail neu'n ormodol neu os byddwch yn gofyn am gopïau caled. Fel arall, efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â'ch cais mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych er mwyn ein helpu i gadarnhau mai chi ydych chi a sicrhau bod gennych hawl i gael gweld y wybodaeth. Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau na chaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu i unrhyw berson nad oes ganddo hawl i'w chael.

34. **Hawl i dynnu caniatâd yn ôl:** Mewn amgylchiadau cyfyngedig lle gallech fod wedi rhoi caniatâd i'ch data gael ei gasglu, ei brosesu a'i drosglwyddo at ddibenion penodol, mae gennych yr hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd. Ni fydd hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl. Os ydych am dynnu eich caniatâd yn ôl, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data. Pan fyddwn wedi cael gwybod eich bod wedi tynnu eich caniatâd yn ôl, byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu eich gwybodaeth at y diben neu'r dibenion y gwnaethoch gytuno ag ef/â nhw yn wreiddiol, oni bai bod gennym reswm dilys a chyfreithlon arall dros barhau i wneud hynny.

35. Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ynghylch diogelu data yng nghyswllt eich data personol.

## Pwy yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data a beth yw eu manylion cyswllt

36. At ddibenion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ateb Group Limited yw'r rheolydd a'r prosesydd data (gweler pwynt 23 ar gyfer proseswyr data ychwanegol).

37. Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y mae eich data'n cael ei brosesu, gallwch gysylltu â'r:

Swyddog Diogelu Data (Ceri Morgan) neu'r Cydlynydd Corfforaethol (Linzi

Laugharne) mydata@atebgroup.co.uk

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn unrhyw bryd, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd ar eich cyfer pan fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau mawr. At hynny, o bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y byddwn yn rhoi gwybod i chi trwy ddulliau eraill am y modd mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu.

**Adolygwyd: Chwefror 2025**